OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1301

Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018

Cofrestr o drafodiadau

6.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth am yr unedau carbon i'w credydu i gyfrif allyriadau net Cymru o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mewn perthynas ag unedau carbon a gredydir o dan reoliad 5(2), rhaid i'r gofrestr gynnwys y manylion a ganlyn—

(a) y dyddiad dileu;

(b) y dyddiad trosglwyddo i gyfrif credyd Cymru;

(c) dyddiad unrhyw ddatganiad gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 5(2);

(d) y flwyddyn y mae'r unedau i'w credydu ynddi;

(e) swm yr unedau a gredydir.